# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Cynllun ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 19.11** |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Michael Evans, Pennaeth Tystiolaeth** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Julie Boswell, Arbenigwraig Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | 1. Ddarparu adborth ar y cynllun i gynhyrchu ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.<br>2. Cytuno ar ymrwymiad y Bwrdd, y trefniadau llywodraethu a chymeradwyo.<br>3. Enwebu pwynt cyswllt o'r Bwrdd i gysylltu â'r tîm Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac i ddiweddaru'r Bwrdd.<br>4. Dylid rhoi sylwadau ar y cynllun ymgysylltu y tu allan i'r cyfarfod drwy e-bost at sonarr@cyfoethnatutiolcymru.gov.uk |

| | |
|---|---|
| **Effaith** | **Edrych i'r <u>hirdymor</u>: Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn adroddiad tystiolaeth ac mae'n llywio Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru**<br><br>**Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>: Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn asesu'r dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac o'r herwydd mae'n rhaid iddo gyflwyno tystiolaeth mewn modd integredig.**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth: Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn adroddiad ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer poblogaeth Cymru** |

| | |
|---|---|
| | **Gweithio mewn ffordd gydweithredol: Y nod yw cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod bob cam o'r broses**<br><br>**Atal materion rhag digwydd: Caniatáu bod y cynlluniau yn cael eu gweld yn gynnar gan roi digon o amser i'w hystyried** |

## Mater

1. Gofynnir i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wneud sylwadau ar y cynlluniau i gynhyrchu ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac i ystyried y dulliau llywodraethu a chymeradwyo ar gyfer yr adroddiad.

## Cefndir

2. Mae Cymru mewn sefyllfa ragorol, gyda dwy ddeddf bellgyrhaeddol ac uchelgeisiol sydd am newid y ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol. Mae hwn yn cynnig cyfle digyffelyb i wella'r cyfraniad y mae ein hadnoddau naturiol yn ei wneud tuag at lesiant pobl Cymru.

3. Mae Deddf yr Amgylchedd yn gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol bob pum mlynedd, yn y flwyddyn cyn etholiadau'r Cynulliad. Un o’r canlyniadau allweddol yw llywio’r gwaith o gynhyrchu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a llwyddodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf (a gynhyrchwyd ym mis Medi 2016) i gael dylanwad cadarn ar Bolisi Adnoddau Naturiol 2017.

4. Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw cynnyrch tystiolaeth pwysicaf Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r adroddiad nid yn unig yn dylanwadu ar y Polisi Adnoddau Naturiol, ond hefyd yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer pob corff arall yng Nghymru i gyflawni eu rhwymedigaethau newydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd.  Mae'n cynnig asesiad o fioamrywiaeth yng Nghymru yn ogystal â chyflwr adnoddau naturiol a'r graddau yr ydym yn llwyddo i reoli'r adnoddau hynny mewn modd cynaliadwy.

5. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol hefyd yn cyfrannu tuag at y sail dystiolaeth ar gyfer cynhyrchu ein datganiadau ardal.  Yn ogystal, mae'n llywio ein hamcan i ymgorffori Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o fewn ein holl weithgareddau.

6. Gwnaeth ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf  edrych ar gyflwr ein hadnoddau a'n ecosystemau, ochr yn ochr â'r pwysau a'u bygythiadau a thueddiadau'r gorffennol a'r rhai a ragdybir ar gyfer y dyfodol.  Gwnaethom asesu gwydnwch ecosystemau Cymru a'r cyfraniadau a wnaethant i'n llesiant, gan ganiatáu i ni gynhyrchu asesiad risg ar gyfer eu cyfraniad tuag at lesiant yng Nghymru yn y dyfodol.

7. Gwnaethom orffen â negeseuon allweddol ar gyfer bob cynefin eang yn ogystal â chyfres o flaenoriaethau eang ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol.

8. Cynhyrchwyd ein hadroddiad cyntaf o dan amserlenni tynn iawn oherwydd yr oedi gyda'r ddeddfwriaeth, ond ni chafwyd unrhyw newid i'r terfynau amser ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad. Oherwydd hyn prin oedd ein cyfle i ymgysylltu'n ehangach. Rydym eisoes wedi cynhyrchu cynllun ymgysylltu ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac mae cyfres o weithdai a digwyddiadau wedi'u cynllunio.

9. Gwnaethom ddysgu llawer o gynhyrchu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf ac rydym wedi ymgorffori'r gwersi hyn i'n cynlluniau ar gyfer cynhyrchu'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Byddwn yn sicrhau bod ein Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ynghylch y cynlluniau cyflawni a'i fod yn gallu cymeradwyo'r adroddiad ar y cam priodol.

10. **Dyddiadau allweddol**

| | |
|---|---|
| Adroddiad interim (a elwir yn Adroddiad Drafft yn Neddf yr Amgylchedd) | **Rhagfyr 2019** |
| Adroddiad Terfynol | **Rhagfyr 2020** |

**Adroddiad interim**

- Yn benodol, mae'n "rhybudd ymlaen llaw" ar gyfer Llywodraeth Cymru, i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol nesaf
- Mae'n disgrifio materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ers yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol diwethaf
- Mae'n disgrifio bylchau mewn tystiolaeth sydd newydd gael eu nodi ac unrhyw ddiweddariad i fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd yn flaenorol; sut y mae'r gwaith o lenwi'r bylchau yn cael ei flaenoriaethu gan gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei ddechrau i fynd i'r afael â nhw
- Mae'n cynnwys dangosyddion arfaethedig ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Mae'n cynnwys diweddariad ar olwg a naws yr adroddiad nesaf

**Adroddiad Terfynol**

Dyma'r sail dystiolaeth genedlaethol a ddylai gynnwys y canlynol:

- Y sefyllfa a thueddiadau presennol
- Asesiad o'r graddau y cyflawnir Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Senarios ar gyfer y dyfodol
- Blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol
- Asesiad o fioamrywiaeth
- Dangosyddion canlyniadau ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar lefel genedlaethol

**<u>Crynodeb</u>**

11.**Rôl Arfaethedig Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru**

Yn dilyn ymgysylltu yn ystod2019 a 2020, cymeradwyaeth o'r prif gynhyrchion; yr adroddiadau interim a therfynol. Disgwylir sylwadau ar y negeseuon allweddol a throsolwg o'r cynnyrch terfynol ond nid ar y cynnwys technegol.

## Amseru a cherrig milltir

| Cam | Amseru | Gweithgaredd | Y cynnyrch a'r garreg filltir |
|---|---|---|---|
| **Cam 1** | Ebrill 2017 i Ragfyr 2018 | Datblygu'r cynllun cyflawni a'r broses | Ceir cynllun cyflawni ag adnoddau llawn erbyn **Chwefror 2019** |
| **Cam 2** | Ionawr 2019 i Ragfyr 2020 | Cynhyrchu'r adroddiad | |
| Cam 2a | Ionawr 2019 i Ebrill 2020 | Galw am dystiolaeth (mewnol ac allanol), Coladu'r dystiolaeth, Asesiadau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | Sefyllfa a thueddiadau; Asesiadau terfynol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy erbyn **Ebrill 2020** |
| Cam 2b | Mehefin 2019 i Ragfyr 2019 | Cynhyrchu'r adroddiad interim | Dangosyddion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy arfaethedig, materion sy'n dod i'r amlwg, cynllun ar gyfer llenwi bylchau mewn tystiolaeth, disgrifiad o fformat yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. **Rhagfyr 2019** |
| Cam 2c | Ionawr 2020 i Fehefin 2020 | Cynllunio ac ysgrifennu | Senarios ar gyfer y dyfodol; Blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer gweithredu; Asesiad o fioamrywiaeth; Dangosyddion canlyniadau ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. **Mehefin 2020** |
| Cam 2d | Mehefin 2020 i Ragfyr 2020 | Sicrhau ansawdd/Adolygu/Cymeradwyo | Bydd yr adroddiad yn barod i'w adolygu ym **Mehefin 2020** |
| **Cam 3** | Rhagfyr 2020 | Lansiad yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol | Cyhoeddir yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn **Rhagfyr 2020** |
| **Cam 4** | Ionawr 2021 ymlaen | Cyhoeddusrwydd ar ôl lansio / defnydd o'r adroddiad | |

**Dull gweithredu**

12. Ymgynghorwyd â Grŵp Llywio Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru, y Bwrdd Busnes Tystiolaeth a'r Tîm Gweithredol ynghylch y cynnig. Mae'r Tîm Gweithredol wedi gofyn eu bod hwy a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu diweddaru am gynnydd trwy gynllun ymgysylltu gweithredol. Mae cael ymgysylltiad effeithiol yn allweddol ar gyfer adroddiad llwyddiannus felly rydym wedi cynnwys y cynllun ymgysylltu llawn yn Atodiad 1. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y cynllun hwn darparwch nhw mewn e-bost at sonarr@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

13. Nid yw cynhyrchu’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn ymwneud â defnyddio data personol felly nid oes angen Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data.

14. Bydd y Grŵp Llywio yn adrodd ar gynnydd i Grŵp Tystiolaeth Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru, y Tîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd trwy gydol 2019 a 2020.

15. Bydd y Bwrdd Busnes Tystiolaeth yn gyfrifol am gymeradwyo cynnwys technegol, fformat a strwythur yr adroddiad.

16. Bydd y Tîm Gweithredol yn gyfrifol am herio'r broses sy'n cael ei dilyn i gynhyrchu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn unol ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

17. Gofynnir i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo'r adroddiad interim a'r adroddiad terfynol.

18. Awgrymir y dylai Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru enwebu arweinydd i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer tîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac i ddiweddaru'r Bwrdd ynghylch datblygiadau. Efallai y bydd unrhyw gynnig ar gyfer Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth neu drefniant tebyg yn dymuno cael rôl o'r fath yn y dyfodol.

**Risgiau allweddol**

19. Yn nhermau llywodraethu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, bydd angen mewnbwn priodol ar yr amser penodedig er mwyn atal y gwaith rhag peidio symud yn ei flaen. Y bwriad yw cynnwys y Tîm Gweithredol a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr adeg fwyaf priodol fel nad oes unrhyw beth annisgwyl yn codi.

Wrth i’n hadnoddau brinhau a'n dyletswyddau newydd gynyddu, bydd yn anodd i'n staff medrus dreulio amser digonol ar gynhyrchu'r adroddiad. Byddwn yn rheoli'r risg hon trwy grŵp llywio'r prosiect a'r bwrdd busnes tystiolaeth. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ceisio dulliau arloesol i sicrhau cymorth technegol ac ariannol ychwanegol.

Mae'n debygol y bydd effaith fawr ar ein henw da os byddwn yn gwneud hyn yn anghywir.

## Y camau nesaf

Bydd dyddiadau ar gyfer ymgysylltu a chraffu yn cael eu cytuno a'u hymgorffori yng nghynllun prosiect yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

## Goblygiadau ariannol

20. Mae'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn derbyn adnoddau o waith sy'n cael ei ariannu gan gymorth grant. Mae'r prif oblygiad ariannol ar adnoddau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

21. Nid oes ei angen. Nid yw llywodraethu’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn broses sy'n cael effaith ar unigolion neu grwpiau.

## Mynegai o atodiadau

Atodiad 1 Ymgysylltu cyfredol a chynllun cyfathrebu